



# Geirfa

Esbonio termau sydd yn y fframwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: 22 Awst 2023

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i [http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-gweithio-gyda-chymunedau/5-geirfa](http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-gweithio-gyda-chymunedau/5-geirfa) am y fersiwn diweddaraf.

Esbonio termau sydd yn y fframwaith.

### Allbwn

Rhywbeth sy’n cael ei gynhyrchu drwy’r hyn sydd wedi digwydd

### Amcan

Yr hyn rydych eisiau ei gyflawni.

### Asedau

Peth neu berson defnyddiol neu werthfawr. Gall asedau cymunedol gynnwys:

- adeiladau a chyfleusterau
- pobl, gyda’u sgiliau, eu gwybodaeth, eu rhwydweithiau cymdeithasol a pherthnasoedd.

### Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Dod â byrddau iechyd, awdurdodau lleol a’r trydydd sector ynghyd i fodloni anghenion gofal a chymorth pobl yn yr ardal.

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Gwneud hi’n haws i bob gwasanaeth cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru i gydweithio

### Caffael

Prynu nwyddau neu wasanaethau gan ddefnyddio meini prawf.

**Clystyrau gofal sylfaenol**

Dwyn ynghyd yr holl wasanaethau iechyd a gofal ledled ardal fach.

**Comisiynu**

Deall beth sydd ei angen, beth sydd ar gael neu ar goll, a datblygu gwasanaethau newydd neu bresennol i gau unrhyw fylchau.

**Cyd-ddylunio**

Dylunio prosiect gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid ar bob cam datblygu. Mae'n golygu gweithio gyda phawb sydd â diddordeb.

**Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS)**

Sefydliad sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar wirfoddoli, ffynonellau arian ac ystod eang o faterion.

**Cynllunio Strategol**

Cynllunio a phenderfynu ar lefel uchel. Mae Cynghorau Sir, byrddau iechyd a'r llywodraeth oll yn cynllunio'n strategol

**Datblygu Cymunedol ar sail Asedau (ABCD)**

Defnyddio'r asedau sydd ar gael mewn cymunedau a dwyn unigolion, cymdeithasau a sefydliadau ynghyd i greu cymuned gryfach.

**Dyfeisgarwch**

Sut gall pobl ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau a pherthnasoedd i helpu ei gilydd

mewn ffyrdd cadarnhaol ac ymarferol.

**Economi Sylfaenol**

Gwasanaethau a chynnyrch hanfodol sy’n cadw ni’n ddiogel ac yn ategu ein lles bob dydd.

**Fframwaith**

Strwythur i ddangos ffordd o weithio a all helpu i gyflawni pethau.

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

Gweithio gyda phobl sy’n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a sefydliadau i arwain gwelliant ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Gwasanaethau statudol**

Gwasanaethau y mae’r llywodraeth yn talu amdanynt yn gyfreithiol. Er enghraifft y GIG, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Gwydnwch**

Sut mae rhywbeth neu rhywun yn dal ati pan fydd pethau’n mynd o chwith

**Methodoleg**

Sut gall darn penodol o ymchwil gael ei gyflawni

**Polisi**

Syniadau neu gynlluniau a ddefnyddir ar gyfer gwneud penderfyniadau

**Rhanddeiliad**

Unigolyn, grŵp, sefydliad neu ardal leol sydd â diddordeb mewn pwnc ac a all un ai gael eu heffeithio neu gael effaith ar y pwnc.

**Trydydd Sector**

Elusennau, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol, cymdeithasau tai. Fel arfer yn sefydliadau anllywodraethol

**Ymchwil Gweithredu**

Proses gylchol o weithredu, myfyrio a newid

**Ymchwilio'n fanwl**

Archwiliad trylwyr a dadansoddiad o bwnc, archwilio beth a sut mae pethau'n gweithio

**Ymyrraeth**

Camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â phroblemau neu fylchau, sy'n digwydd yn y gymuned.

**Ymyrraeth amlsector**

Diddordeb gweithredol gan sefydliadau lleol, canol, cymorth a strategol.